

CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN
COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD NOS FAWRTH
17 Mawrth 2015, Gosen, Llangwyllog
am 7:30 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng C McGregor, D Morgan, D Pritchard, A Wyn, D Roberts	
YMDDIHEURIADAU: Cyng M Lees, W Vaughan, A Williams, D ap Rhobert, O Davies, W Williams, M Huws, PCSO M Hughes	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng C McGregor. Cynigodd y Cadeirydd croeso i pawb.
2	DATGAN DIDDORDEB - Dim
3	DERBYN COFNODION Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 20 Ionawr 2015. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng D Morgan yn cynnig a Cyng A Wyn yn eilio
4	MATERION YN CODI O'R COFNODION
4.1	Gor-yrru Llangwyllog - Mae yr Adran Trafnidiaeth wedi gwneud speed survey arall yn Llangwyllog yn ystod mis Gorffennaf 2014. Maen ymddangos yn hwn fod yr 85 percentile yn 48 milltir yr awr. Bydd y Clerc yn gofyn am copi o'r survey
4.2	Gofeb Talwrn - mewn llaw
4.3	Rali Mon - Penderfynwyd cau'r mater hwn oherwydd bod rhybudd o'r rali wedi ei ddosbarthu
4.4	Yr Heddlu - gweler 6.1
4.5	Arwydd Talwrn - mewn llaw
4.6	Baw ceffyl a lefelu Lon Hafan Deg - Bodlondeb - mae'r gwaith hwn wedi ei gwblhau
4.7	Gor-yrru Talwrn - Mae'r Heddlu yn cadarnhau ni fu unrhyw adroddiadau pellach o oryrru yn Nhalwrn.
4.8	BT (Llanddyfnan) - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb
4.9	National Grid - Penderfynwyd disgwyl am y cyfnod ymgynghori i pasio sylwadau ymlaen
4.10	Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd Gwynedd a Mon - Bydd y Clerc yn pasio sylwadau y Cyngor ymlaen: Mae aelodau yn gwrthwynebu nifer yr anheddau arfaethedig am y rhesymau canlynol: Nid oes unrhyw ofyniad ar gyfer symiau helaeth o dai ychwanegol. Mae llawer o dai ar werth ar Ynys Môn. Pam yr angen i adeiladu 600 o dai yn Llangefni pan nad oes gwaith yn yr ardal, mae ysgolion yn llawn ac nid oes unrhyw arian i adeiladu ysgolion ychwanegol?
	Llofnod.....Cadeirydd 21.04.15

	Nid yw Ysbyty Gwynedd yn gallu trin cleifion ychwanegol Yr effaith fydd y cynigion yn ei gael ar yr iaith Gymraeg. Mae'r cyngor yn cynnig na fydd unrhyw adeiladu yn cael ei gynnal hyd nes bydd diwydiant wedi cael ei sefydlu. Mae'r aelodau hefyd yn cynnig bod cynghorau Gwynedd a Môn yn mynd yn ôl i'r dechrau gyda'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, ac yn ailedrych yn ddifrifol ar y cynigion.
5	GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON
	Cynllunio
5.1	23C321A cais llawn ar gyfer newid defnydd yr adeilad allanol i 2 annedd ynhyd a gosod system trin carthffosiaeth yn Penyfan Bellaf, Talwrn - dim sylwadau
5.2	23C321 cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu ynghyd a gosod system trin carthffosiaeth yn Penyfan Bellaf, Talwrn - dim sylwadau
	Priffyrdd
5.3	Baw ceffyl a lefelu Lon Hafan Deg - Bodlondeb - gweler 4.6
5.4	Gor-yrru Llangwyllog - gweler 4.1
	Llywodraethu Corfforaethol
5.5	Pwyllgor Safonau - Mae Pwyllgor Safonau Ynys Mon angen dau aelod i eistedd ar y Pwyllgor o Rhagfyr 2015 ymlaen. Penderfyniwyd cynnig y Cadeirydd Cyng Clive McGregor.
6	GOHEBIAETH YCHWANEGOL
6.1	<p>Comisiynydd yr Heddlu -Darllenwyd ymateb: Mae gan Heddlu Gogledd Cymru a Chomisiynydd Heddlu Gogledd Cymru Gynllun Iaith Gymraeg ar y cyd sy'n cynnwys ymrwymiad penodol i gynyddu'r nifer o swyddogion a staff sy'n gallu siarad Cymraeg er mwyn bod mewn gwell sefyllfa i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg wrth ymwneud â'r cyhoedd. Ers nifer o flynyddoedd mae Heddlu Gogledd Cymru wedi bod yn gweithio tuag at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr Heddlu. Erbyn hyn mae ychydig dros 30% o'r holl staff yn siarad Cymraeg yn rhugl (Lefelau 4 a 5 yn ein fframwaith gallu yn y Gymraeg).</p> <p>Er mwyn gwella'r sefyllfa sefydlwyd nifer o fentrau i gynyddu'r ganran hon ymhellach. Mae hyn yn cynnwys ceisio annog rhagor o geisiadau gan siaradwyr Cymraeg i ymuno â'r heddlu fel cwnstabiliaid neu Swyddogion Cefnogi Cymuned yr Heddlu.</p> <p>Mae'r Heddlu hefyd yn darparu hyfforddiant iaith Gymraeg yn ystod oriau dyletswydd er mwyn helpu staff i ddatblygu eu gallu yn y Gymraeg ac ennill mwy o hyder i siarad Cymraeg yn y gweithle .</p> <p>Mewn perthynas â phob swydd yn yr Heddlu, pennir y lefel o Gymraeg llafar sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r rôl ac os nad yw staff eisoes ar y lefel honno, mae'n rhaid iddynt fynychu hyfforddiant iaith. Amgaeaf fframwaith gallu yn y Gymraeg yr Heddlu er gwybodaeth. Mae'r fframwaith yn nodi'r sgiliau angenrheidiol ar bob lefel.</p> <p>Llofnod.....Cadeirydd 21.04.15</p>

	Yn unol â pholisi Sgiliau Iaith Gymraeg yr Heddlu, mae'n ofynnol i swyddogion nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg ddangos lefel sylfaenol o Gymraeg cyn y cânt eu penodi (Lefel 2) a hynny er mwyn gallu dangos cwrteisi ieithyddol. Ar ôl eu penodi mae'n rhaid iddynt basio lefel 3 yn ystod eu cyfnod prawf o ddwy flynedd. Mae hyfforddiant cychwynnol yr heddlu yn cynnwys cwrs Cymraeg gorfodol er mwyn cynorthwyo swyddogion newydd i wella'u sgiliau iaith felly byddant fel arfer wedi cyrraedd lefel 3 ymhell cyn diwedd y ddwy flynedd, yn wir mae'r rhan fwyaf o swyddogion heddlu newydd wedi cyrraedd lefel 3 o fewn 6 – 9 mis o ymuno â'r Heddlu. Mae'n ofynnol hefyd i unrhyw staff sydd eisiau dyrchafiad gyrraedd Lefel 3 os nad ydynt eisoes ar y lefel honno neu uwch. Cafodd y mentrau hyn a'r ymrwymiad ehangach y mae'r Heddlu wedi'i wneud i fod yn sefydliad dwyieithog gydnabyddiaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ddiweddar.
6.2	Yr Heddlu - Gor-yrru Talwrn - gweler 4.7
7	MATERION ARIANNOL
	Penderfyniwyd talu y canlynol:
7.1	Rhoddion: Neuadd Talwrn £600, Radio Ysbyty Gwynedd £100, Eisteddfod Llangollen £100, Shelter Cymru £100, Cymdeithas y Byddar £100, Eisteddfod Genedlaethol Cymru £100. Eraill: Aelodaeth Unllais Cymru £131, Costau y Clerc £30.03, J Roberts Archwiliwr £63.
8	MATERION ERAILL
8.1	Adolygu: Rheolau Cyllid, Rheolau Sefydlog, Asesiad Risg, Rheolau Mewnol - dim newidiadau
8.2	Cynigodd y Cyngor Llongyfarchiadau i Cyng Arfon Wyn ar ei gyfraniad i Càn i Gymru
	Llofnod.....Cadeirydd 17.03.15